Cymorth Cynllunio Cymru
Planning Aid Wales

Adroddiad Blynyddol Ebrill 2011 i Fawrth 2012

Cymorth Cynllunio Cymru
Adroddiad Blynyddol
Ebrill 2011 i Fawrth 2012

Cynnwys	Tudalen
Rhagair	2
Gweithio gyda chymunedau	3
Gwybodaeth a chyngor	5
Gweithio gyda phartneriaid	6
Gwneud mwy gyda'n gwirfoddolwyr	7
Codi ein proffil	9
Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol 2011/12	10
Atodiad 2: Cyfarwyddwyr a staff	11

Cymorth Cynllunio Cymru – helpu cymunedau i ymgysylltu â chynllunio

Gwefan: www.cymorthcynlluniocymru.org.uk
Cyngor ar ebost: post@cymorthcynlluniocymru.org.uk
Llinell Gymorth Cyngor: 02920 625 000
Ymholiadau cyffredinol: 02920 625 009

Elusen gofrestredig 1000115
Cwmni cyfyngedig drwy warant 2526875 (Cymru)

ISBN: 978-0-9567727-1-8

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Rhagair

Mae hi wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus arall i Gymorth Cynllunio Cymru.

Rydw i'n hynod o falch gyda'r gwaith rydym wedi ei gyflawni i gael cymunedau i feddwl yn weithredol ynghylch sut y gallant gael effaith ar ddefnydd tir yn agos i ble mae nhw'n byw, yn yr hir dymor.

Bydd y gwaith rydym wedi ei gyflawni gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yn sicr, yn gallu cael ei ddefnyddio mewn mannau eraill o Gymru.

Mae adeiladu dialog rhwng rhanddalwyr cynllunio yn rhywbeth sydd gan Cymorth Cynllunio Cymru y potensial unigryw i'w ddatblygu oherwydd ein statws annibynnol a diduedd.

Rydw i'n sicr y byddwn yn gwneud llawer mwy i godi ymwybyddiaeth pellach o hyn dros y misoedd sydd i ddod.

Rydw i hefyd yn falch ein bod yn gweithio mwy gyda chymunedau mewn ardaloedd difreintiedig sydd ddim erioed wedi dod ar draws y system gynllunio o'r blaen.

Credaf mai adeiladu ymddiriedaeth a hyder yn y system gynllunio, ymysg y boblogaeth gyffredinol, yw'r ffordd ymlaen, nid yn unig i Gymorth Cynllunio Cymru, ond i'r system Gynllunio yng Nghymru gyfan.

Hoffwn ddiolch i'r staff a'm cyd-Gyfarwyddwyr yn Cymorth Cynllunio Cymru am eu gwaith caled eleni.

Mae'n werth chweil edrych dros y gwaith rydym wedi ei gyflawni ac i wybod fy mod yn rhan o grŵp o bobl sy'n cyfrannu mor gadarnhaol i Gynllunio yng Nghymru. Mae'r staff, yn enwedig, yn haeddu diolch arbennig am eu hymroddiad i gyflawni amcanion Cymorth Cynllunio Cymru.

Lucie Taylor

Cadeirydd Cymorth Cynllunio Cymru

Gweithio gyda chymunedau

Hyfforddiant i gynllunwyr ar ymgysylltu â'r gymuned

Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn helpu cymunedau i ymgysylltu â'r system gynllunio trwy adeiladu gwybodaeth, gallu a hyder. Yn enwedig rydym yn anelu i helpu cymunedau sydd ar yr ymylon yn economaidd neu'n gymdeithasol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae ein staff a'n gwirfoddolwyr wedi gweithio gydag ystod o grwpiau targed sydd ddim fel arfer yn ymwneud â chynllunio. Mae rhain yn cynnwys grwpiau anabledd a mynediad, sipsiwn a theithwyr a grwpiau cymunedol mewn ardaloedd difreintiedig.

Rydym hefyd wedi gweithio i ddelio â materion cynllunio gyda 34 o grwpiau cymunedol ac wedi traddodi 13 o sesiynau hyfforddi ac adeiladu gallu ar gyfer cymunedau dros y flwyddyn ddiwethaf.

Rydym wedi sefydlu gweithgor allgymorth cymunedol i symud y gwaith pwysig hwn yn ei flaen. Mae'n datblygu strategaeth allgymorth cymunedol fydd yn diffinio cynulleidfaoedd targed a rhaglenni gwaith wedi eu hanelu at eu cynorthwyo i ymgysylltu â chynllunio.

Hyfforddiant i gynghorau tref a chymuned

Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn paratoi cyfres o ddeunyddiau dysgu-o-bell ar gyfer cynghorwyr tref a chymuned i'w galluogi i weithio trwyddynt yn eu hamser eu hunain.

Mae cyfres o Becynnau Gweithredu yn delio â'r materion cynllunio perthnasol wedi ei dreialu gydag adborth cadarnhaol iawn. Bydd rhain ar gael yn fuan i'w lawrlwytho am ddim o'n gwefan.

Rydym hefyd wedi traddodi pump sesiwn hyfforddiant dros y flwyddyn ddiwethaf i gynghorwyr lleol yn delio ag ystod o faterion cynllunio a chawsom adborth ffafriol iawn:

'Roedd y sesiwn hyfforddi yn ei chyfanrwydd yn ddiddorol ac yn rhyngweithredol. Roedd yr hwylusydd yn wybodus iawn.' (Mai 2011)

'Rwyf wedi ennill y gallu a'r hyder i gynnig ymateb teg i'r cynllun yn fy ardal.' (Mawrth 2012)



Crynodeb o werthuso'r hyfforddiant, Ebrill 2011 - Mawrth 2012

Cymunedau yn Gyntaf

Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn anelu at helpu unigolion a grwpiau mewn ardaloedd difreintiedig i ymgysylltu â chynllunio. Er mwyn codi ymwybyddiaeth o'n gwasanaethau ymysg partneriaethau Cymunedau Yn Gyntaf yng Nghymru, cynhaliwyd gweithdy gennym yng nghynhadledd flynyddol Cymunedau yn Gyntaf, buom yn datblygu cysylltiadau gyda chydlynwyr bwrdd partneriaeth trosfwaol yn Ne Cymru ac anfonwyd ein cylchlythyr cymunedol at bartneriaethau ar draws Cymru.

Hefyd gwnaethom ymateb i ymgynghoriad ar ddyfodol rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, gan gefnogi cynigion ar gyfer strwythur mwy strategol fydd yn ein cynorthwyo i adeiladu cysylltiadau gyda phartneriaethau lleol trwy gydlynwyr trosfwaol.

Ymgysylltu cymunedau mewn cynllunio datblygu

Yn dilyn y gwaith a ymgymerwyd gennym i gefnogi Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i ymgysylltu â'u cymunedau lleol wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol, dywedodd Cadeirydd yr awdurdod mewn llythyr at aelodau eraill yr awdurdod:

'Dylem fod yn weithredol yn hyrwyddo'r gwersi a ddysgwyd, a buddiannau ymgysylltu â'r gymuned, o fewn Awdurdod y Parc Cenedlaethol, i drigolion y Parc ac i gynulleidfa ehangach cynllunio. Dylai hyn fod yn esiampl o ymarfer gorau a dylem gyfathrebu'r gwersi fel stori newyddion da.'

Gweithio gyda Grwpiau Mynediad

Cyhoeddwyd cyhoeddiad canllaw newydd gennym gyda'r teitl 'Canllaw i Ddatganiadau Mynediad' ac anfonwyd copïau lluosog i bob awdurdod cynllunio Cymreig ac ystod o sefydliadau eraill. Gellir ei lawrlwytho o'n gwefan: www.planningaidwales.org.uk/how-paw-can-help/information/publications

Hefyd cynhaliwyd dau weithdy hyfforddiant yn para am ddiwrnod cyfan yr un gennym ar gyfer cynrychiolwyr grwpiau mynediad a chynllunwyr fel rhan o brosiect Anabledd Cymru - 'Y Ffordd Ymlaen'

Cyfranddalwyr y gymuned yn cymryd rhan ym mhroses y Cynllun Datblygu Lleol

Gwybodaeth a chyngor



Math o ymholiad



Cymhwyster cleientiaid

Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn darparu gwasanaeth cyngor Llinell Gymorth diduedd gan ddefnyddio gwasanaeth rhwydwaith o wirfoddolwyr sy'n weithwyr achos cymwys. Rhwng Ebrill 2011 a Mawrth 2012 gwnaethom ymateb i 380 cais am gynorthwy oedd yn cynnwys ystod eang o faterion cynllunio. Hefyd rhoesom gymorth i 34 grŵp cymunedol oedd, gyda'i gilydd, ag aelodaeth o dros 700 o bobl.

Mae'r meini prawf cymhwyster yn ein cynorthwyo i sianelu ein hadnoddau cyfyngedig i'r bobl â'r angen mwyaf. Dengys y diagramau gyferbyn gymhwyster y galwyr i'r Llinell Gymorth dros y flwyddyn ddiwethaf ynghyd â'r mathau o ymholiadau a dderbyniwyd.

Enghreifftiau o adborth

Ar ôl i wirfoddolwr roi cyngor ar y broses apeliadau a helpu paratoi sylwadau ar apêl ynghylch adeiladu swyddfeydd, dywedodd Mrs P: *'Des i wybod am Gymorth Cynllunio Cymru gan rywun arall. Y cyngor gorau gefais i erioed.'*

Ar ôl i aelod staff wneud sylwadau ar ddatganiad apêl drafft a baratowyd gan Ms W., dywedodd: *'Roedd yn ddefnyddiol iawn i gael cyngor diduedd ar bwnc nad yw'r rhan fwyaf o bobl yn gyfarwydd ag o.'*

Ar ôl i wirfoddolwr fynychu cyfarfod o grŵp gweithredol cymunedol yng Nghaerdydd dywedodd Cadeirydd y cyfarfod: *'Roedd eich gwirfoddolwr yn hollol wych – yn chwalu chwedlau, yn rhoi goleuni ac yn annog pobl i gymryd rhan yn gwrthwynebu i ac yn cefnogi ceisiadau cynllunio yn ogystal â rhoi sylwadau ar y Cynllun Datblygu Lleol.'*

Ar ôl i aelod staff esbonio'r broses gynllunio a'r opsiynau ar gyfer gwrthwynebu i ddatblygiad mawr o dai dywedodd Mrs D: *'Roedd mor ddefnyddiol i siarad â rhywun oedd yn hawdd ei ddeall.'*

Rhai enghreifftiau o waith achos

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi:

- *esbonio ystyriaethau cynllunio perthnasol i gyngor cymuned i'w cynorthwyo i roi sylwadau ar gais cynllunio;*
- *rhoi cyngor i grŵp o drigolion ar y ffordd orau i weithredu i achub safle ddiwydiannol leol;*
- *helpu unigolyn â dyslecsia i strwythuro ei sylwadau ar ymgynghoriad polisi cynllunio cenedlaethol;*
- *annog unigolyn i ysgrifennu at ei adran gynllunio lleol i ofyn pam fod amod ynglŷn ag ystlumod wedi ei gynnwys yn ei ganiatâd cynllunio, er bod arolwg wedi cadarnhau nad oedd ystlumod ar y safle;*
- *rhoi cyngor i grŵp cymunedol oedd wedi adnewyddu eu neuadd pentref yn ddiweddar er mwyn ei ddefnyddio fel caffi, ar sut i wneud cais am newid defnydd;*
- *esbonio rôl Datganiadau Dylunio a Mynediad i unigolyn, a'i roi mewn cysylltiad â grŵp mynediad lleol i'w gefnogi ar fater o fynediad yn ei bentref;*

Gweithio gyda phartneriaid

Trafodaeth Bwrdd Rheoli Cymorth Cynllunio Cymru

Gyda'r **Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru,** trefnwyd Derbyniad yn y Senedd gennym ar y cyd yn Nhachwedd 2011 ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a rhanddalwyr cynllunio allweddol. I godi ymwybyddiaeth o hyd a lled ein gwaith, cynhyrchwyd nodyn canllaw gennym yn disgrifio ein gwaith yn ymgysylltu cymunedau â chynllunio, ynghyd â thri astudiaeth achos yn disgrifio prosiectau penodol: y rhaglen hyfforddiant i gynghorau tref a chymuned; ymgysylltiad strategol â'r gymuned ym Mannau Brycheiniog; a'r cyhoeddiad canllaw ar Ddatganiadau Mynediad. Gellir lawrlwytho'r rhain o'n gwefan: www.planningaidwales.org.uk/about-us/recent-work

Rydym hefyd wedi paratoi ymatebion i'r ymgynghoriadau cynllunio canlynol gan **Lywodraeth Cymru**:

- Adolygiad o'r cyfarwyddiadau lle dylid cyfeirio ceisiadau cynllunio i Weinidiog Cymru (Mehefin 2011)
- Nodyn Cyngor Technegol Drafft 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (Mehefin 2011)
- Cymunedau yn Gyntaf: Y Dyfodol (Medi 2011)
- Canllaw Ymarfer Drafft: Gwireddu'r potensial am drafodaethau cyn-ceisio (Medi 2011)
- Gwella'r broses apeliadau cynllunio (Tachwedd 2011)
- Fframwaith monitro strategol ar gyfer y system gynllunio: Mesur y datblygiadau tuag at Gymru gynaliadwy (Ionawr 2012)
- Tuag at Ddeddf Gynllunio Gymreig: Sicrhau bod y system gynllunio yn traddodi'n gywir (Chwefror 2012)

Gellir lawrlwytho ein hymatebion oddi yma: www.planningaidwales.org.uk/about-us/consultation-responses

Yn Ionawr 2012, rhoesom ein llofnod i **Siarter Datblygu Cynaliadwy** Llywodraeth Cymru. Tanategir ein cefnogaeth o'r Siarter oherwydd bod cynllunio yn un o'r ychydig fecanweithiau a all helpu i draddodi datblygiad cynaliadwy trwy amgylcheddau gwell, cymunedau cryfach ac economi fwy cadarn.

Gwneud mwy gyda'n gwirfoddolwyr

Recriwtio gwirfoddolwyr newydd

Croesawyd pedwar ar bymtheg o wirfoddolwyr newydd dros y flwyddyn ddiwethaf i greu rhwydwaith o oddeutu naw deg o bobl. Mae gwirfoddolwyr cynllunio profiadol yn cynnal ein gwasanaethau gwaith achos a hyfforddiant, ac hefyd yn mentora gwirfoddolwyr llai profiadol. Mae gwirfoddolwyr cymunedol yn cynorthwyo gyda gweithgareddau allgymorth, yn helpu mewn digwyddiadau ac yn cynorthwyo gyda marchnata.
Mae rhestr o'r gwirfoddolwyr presennol ar gael yma: www.planningaidwales.org.uk/about-us/volunteers

Darparwyd cyfle i weithio yn ein swyddfa i ddau gynllunydd graddedig dros y flwyddyn ddiwethaf. Cafodd y ddau brofiad gwaith gwerthfawr a'u cynorthwyodd i gael cyflogaeth barhaol ddiogel ym mhroffesiwn cynllunio.

Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr newydd yn barhaol. Os oes gennych ddiddordeb mewn defnyddio'ch sgiliau mewn cynllunio neu ymgysylltiad cymunedol ewch i www.planningaidwales.org.uk/volunteering.

Diolch yn fawr a phob lwc i'r gwirfoddolwyr sy'n ein gadael: John Lambert, Clive James, Iwan Lloyd Hughes, Barry Lomax, Angharad Hobbs, Stephanie Irvine, Heather Williams, Catrin Jones, Ffion Bevan, Elaine Thomas, Justin Waite and Sarah Martin.

Rhai o brofiadau'r gwirfoddolwyr

Gall gwirfoddoli gyda Chymorth Cynllunio Cymru ddarparu agweddau newydd a defnyddiol ar gysylltiad y cyhoedd yn y broses gynllunio: *'Mae gwirfoddoli i Gymorth Cynllunio Cymru yn brofiad gwerthchweil iawn. Rwyf wedi cael mewnwelediad i'r problemau sydd gan bobl mewn perthynas â'r gwaith cynllunio mae awdurdodau lleol yn ei gyflawni. Yn benodol, mae gwirfoddoli wedi fy ngalluogi i ddeall y rhwystrau mae pobl yn eu wynebu wrth geisio dylanwadu ar ffurfio polisïau. Gallaf ddefnyddio hyn yn fy ngwaith bob dydd i sicrhau fy mod yn ymgysylltu'n well ac yn ymgynghori'n well gydag aelodau'r cyhoedd a phartïon eraill sydd â diddordeb, er mwyn iddynt gymryd rhan gweithredol yn y broses gynllunio.'*
(Brian Davies, gwirfoddolwr cynllunio)

'Yn ystod fy lleoliad gyda Chymorth Cynllunio Cymru cefais y cyfle i ymchwilio i amrywiaeth eang o faterion cynllunio. Hefyd, dysgais sut i gynhyrchu canllawiau hygyrch i'r cyhoedd ar faterion cynllunio, cefais fewnwelediad i'r anawsterau mae'r cyhoedd yn eu hwynebu pan yn ymgysylltu â'r system gynllunio a chael gwybod am y diweddaraf yn newidiadau i bolisi cynllunio cenedlaethol. Mae gwirfoddoli wedi rhoi'r cyfle i mi i ddatblygu fy ngwybodaeth a'm sgiliau ac wedi rhoi profiad gwerthchweil mewn cynllunio i mi.'
(Stephanie Irvine, gwirfoddolwraig swyddfa)

Gweithgaredd y gwirfoddolwyr

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein gwirfoddolwyr, gyda'i gilydd, wedi cyfrannu bron i 800 o oriau o'u hamser i helpu cynyddu dealltwriaeth a chysylltiad y cyhoedd â chynllunio. O'r cyfanswm hwnnw, mae'r gweithwyr achos wedi treulio mwy na 300 o oriau yn rhoi cyngor i ymholwyr ar ein Llinell Gymorth ar ystod eang o faterion cynllunio. Treuliwyd 481 yn ychwanegol ar weithgareddau eraill fel paratoi cyhoeddiadau canllaw, traddodi hyfforddiant ac mewn lleoliadau yn y swyddfa.

Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr

Ym mis Mawrth 2011 gwnaethom gofrestru ar Siarter Buddosii mewn Gwirfoddolwyr a chyflwyno ein asesiad terfynol yn Ebrill 2012. Gobeithiwn gael marc y siarter tua canol 2012.

Rheolaeth y gwirfoddolwyr

Rydym yn gwerthfawrogi'n gwirfoddolwyr ac yn anelu'n barhaol i wella ein cefnogaeth iddynt. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi:

- cyhoeddi canllaw cynhwysfawr i weithwyr achos ar gyfer gwirfoddolwyr sy'n cymryd achosion o'r Llinell Gymorth;
- cyhoeddi polisi gwirfoddoli cynhwysfawr ac hefyd polisïau ar fentora a gweithio ar eich pen eich hun;
- uwchraddio adran gwirfoddolwyr ein gwefan;
- cyfeirio mwy na hanner o'r holl alwadau o'r Llinell Gymorth i'n gwirfoddolwyr;
- cyflwyno pecyn newydd o wybodaeth i bobl sydd a diddordeb mewn gwirfoddoli;
- traddodi rhaglen o ddigwyddiadau hyfforddiant i wirfoddolwyr.

Hyfforddiant a rhwydweithio'r gwirfoddolwyr

Dros y flwyddyn rydym wedi traddodi rhaglen hyfforddiant i wirfoddolwyr yn cynnwys pedwar digwyddiad cyflwyno i wirfoddolwyr newydd, noson o hyfforddiant i weithwyr achos, cwrs hyfforddiant hwyluso ac hyfforddiant ar sut i weithio gyda grwpiau o sipsiwn a theithwyr.

Bydd y rhaglen hyfforddiant yn y flwyddyn i ddod yn canolbwyntio ar adeiladu sgiliau'r gwirfoddolwyr i draddodi hyfforddiant ac i gynorthwyo gyda gweithgareddau allgymorth cymunedol.

Codi ein proffil

Marchnata a hyrwyddo

Rydym wedi targedu ein hymdrechion marchnata at adeiladu ymwybyddiaeth o Gymorth Cynllunio Cymru ymysg cynulleidfaoedd targed allweddol yn cynnwys awdurdodau cynllunio lleol, ystod o sefydliadau o randdalwyr, cymunedau difreintiedig ac Aelodau'r Cynulliad.

Rydym wedi hyrwyddo ein gwaith trwy erthyglau a gyhoeddwyd yng nghylchlythyrau a bwletinau nifer o sefydliadau yn cynnwys: Age Cymru, TPAS Cymru; Cynnal Cymru; Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; Gwethredu Gwirfoddol Merthyr; y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru; Sefydliad Gwent dros Withgaredd Gwirfoddol, a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol.

Datblygu'r wefan

Mae gwefan Cymorth Cynllunio Cymru wedi ei diweddaru. Mae'r dudalen hafan yn fwy hygyrch a haws ei defnyddio, mae adran yn rhoi manylion cyswllt y 25 awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru ac yn dangos datblygiadau gyda pharatoad y Cynllun Datblygu Lleol, ac adran cynhwysfawr o ddolenni sy'n cyfeirio defnyddwyr at ffynonellau ychwanegol o wybodaeth ar-lein yn ogystal ag ystod eang o sefydliadau perthnasol.

Mynychu digwyddiadau allweddol

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi codi stondinau arddangos ac wedi rhedeg gweithdai mewn nifer o ddigwyddiadau a chynadleddau allweddol yn cynnwys: Cynhadledd Cynllunio Cymru; cynhadledd flynyddol Cymunedau yn Gyntaf; cynhadledd flynyddol Un Llais Cymru a chynhadledd flynyddol Gwasanaeth Cynghori Tenantiaid yn Cymryd Rhan.

Adolygiad Blynyddol 2010-11

Cynhyrchwyd fersiwn gryno o'n Adroddiad Blynyddol 2010-11 ar ffurf pamffled blygadwy A3 a danfonwyd at gynulleidfaoedd targed marchnata.

Gwelliannau i wefan Cymorth Cynllunio Cymru

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol 2011/12

Datganiad o weithgareddau ariannol, y flwyddyn yn gorffen Mawrth 31ain 2012

	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2012 £	Cyfanswm 2011 £
Adnoddau'n dod i mewn				
Gweithgareddau er hyrwyddo amcanion yr elusen				
Grantiau a dderbyniwyd	135,000	-	135,000	127,000
Rhoddion	76	-	76	128
Digwyddiadau codi arian	267	-	267	162
Llog banc a dderbyniwyd	104	-	104	106
Incwm arall	1,270	-	1,270	145
Ffioedd yn dderbyniadwy	6,278	5,260	11,538	6,701
Cyfanswm adnoddau'n dod i mewn	**142,995**	**5,260**	**148,255**	**134,242**
Adnoddau a wariwyd				
Gwariant elusennol uniongyrchol	145,068	309	145,377	142,552
Rheolaeth a gweinyddiaeth	2,170	-	2,170	1,942
Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd	**147,238**	**309**	**147,547**	**144,494**
Adnoddau net yn dod i mewn ar gyfer y cyfnod	**(4,243)**	**4,951**	**708**	**(10,252)**
Cronfeydd a gariwyd ymlaen	49,229	10,579	59,808	70,060
Unioniad y flwyddyn flaenorol	(327)	327	-	-
Cronfeydd a gariwyd ymlaen – ailddatganwyd	48,902	10,906	59,808	-
Cronfeydd i'w cario ymlaen	**44,659**	**15,857**	**60,516**	**59,808**

Cymorth cynllunio cymru mantolen ar 31 Mawrth 2012

	2012 £	2011 £
Asedau sefydlog		
Asedau diriaethol	1,518	1,053
Asedau cyfredol		
Stociau	300	300
Dyledwyr	1,901	2,661
Arian parod yn y banc	59,509	58,810
	61,710	61,771
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn	(2,712)	(3,016)
Asedion cyfredol net	58,998	58,755
Cyfanswm yr asedion namyn y dyledion cyfredol	**60,516**	**59,808**
	=====	=====
Cronfeydd		
Anghyfyngedig	44,659	48,902
Cyfyngedig	15,857	10,906
Cronfeydd yr aelodau	**60,516**	**59,808**
	=====	=====

Cymerwyd y ffigyrau uchod o gyfrifon drafft 2011/12, sydd i'w harchwilio. Mae'r cyfrifon llawn ar gael ond i chi ofyn.

Mae Bwrdd Rheoli Cymorth Cynllunio Cymru yn arolygu rheolaeth ariannol y sefydliad gyda'r bwriad o gefnogi a chynyddu Cymorth Cynllunio Cymru ar sail gadarn ariannol. Mae gan y Bwrdd bolisi arian-wrth-gefn sydd wedi ei gynllunio i gynnal lefel gall o arian-wrth-gefn i barhau i weithredu, yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau.

Mae'r tablau yn cyfeirio at gronfeydd cyfyngedig ac anghyfyngedig. Mae hyn yn gwahaniaethu rhwng cronfeydd a ellir eu gwario ar eitemau penodol yn unig sydd â chysylltiad ag ariannu prosiect fel arfer, a'r rhai lle nad oes unrhyw gyfyngiad ar eu defnydd.

Atodiad 2: Bwrdd Rheoli a'r staff

Bwrdd Rheoli

Lucie Taylor, Cadeirydd

Gayle Wootton, Is-Gadeirydd

Owain Wyn, Trysorydd

Peter Kingsbury, Cadeirydd Pwyllgor Staffio ac Archwilio

Allan Archer

Laura Dagless (hyd at fis Gorffennaf 2011)

James Griffiths

Neil Harris (hyd at fis Gorffennaf 2011)

Ian Horsburgh

Katherine Hughes

Tony Humphreys (hyd at fis Gorffennaf 2011)

John Mattocks

Kathleen Norton

Jane Shatford (o Ionawr 2012)

Chris Potts (Enwebedig RTPI Cymru hyd at fis Gorffennaf 2011)

Alison Thomas (Enwebedig RTPI Cymru o fis Gorffennaf 2011)

Tîm staff

Elwyn Thomas, Prif Weithredwr

James Davies, Cynllunydd a Rheolwr Achos

Sioned Pearce, Swyddog Datblygu ac Hyfforddiant

Angharad Hobbs, Cynorthwy-ydd Cynllunio

Kay Sharman, Swyddog Ariannol a Gweinyddol